

Dyddiad cyhoeddi: 21 Rhagfyr 2021

Cais Rhyddid Gwybodaeth

Rydyn ni'n ysgrifennu atoch i ymateb i'r Cais Rhyddid Gwybodaeth a wnaethoch. Mae eich cais wedi cael ei ystyried yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'n Polisi Rheoli Data a Gwybodaeth.

Fe wnaethoch chi ofyn am yr wybodaeth ganlynol:

'Allwch chi ddweud wrthyf fi pa feini prawf y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn i gwsmeriaid wneud cais am ad-daliad/iawndal? (ee trê'n wedi'i chanslo, oedi ac ati). [C1]

A fyddech cystal â dweud wrthyf hefyd faint o iawndal sydd wedi cael ei dalu i gwsmeriaid ers 2018? Byddem yn gwerthfawrogi pe gallech rannu hynny yn ôl blwyddyn ariannol.' [C2]

Atebion i'ch Cwestiynau

C1. Pa feini prawf y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn i gwsmeriaid wneud cais am ad-daliad/iawndal? (ee trê'n wedi'i chanslo, oedi ac ati).

Mae'r wybodaeth hon eisoes ar gael i'r cyhoedd fel a ganlyn:

Rydyn ni bob amser yn ceisio sicrhau bod ein trenau'n brydlon, ond mae achosion o oedi weithiau a, phan fydd hyn yn digwydd, byddwn yn cynnig iawndal teg a phriodol. Os bydd un o'n trenau yn hwyr neu'n cael ei ganslo am unrhyw reswm, ac o ganlyniad, mae teithiwr yn cyrraedd yr orsaf lle'r oedd yn bwriadu gorffen ei daith 15 munud neu fwy yn hwyr, bydd 'Ad-daliad am Oedi' yn dod i rym. Mae ein ffurflen gais Ad-daliad am Oedi ar gael [yma](#). Rhaid i ni gael ceisiadau am iawndal cyn pen 28 diwrnod ar ôl cyrraedd pen y daith.

Mae rhagor o wybodaeth am y ffordd rydyn ni'n ymateb i geisiadau am ad-daliadau a hawliadau am iawndal eisoes ar gael yn gyhoeddus, ar dudalennau 11-19 ein Siarter Teithwyr - sydd ar gael [yma](#).

C2. Faint o iawndal sydd wedi cael ei dalu i gwsmeriaid ers 2018? Byddem yn gwerthfawrogi pe gallech rannu hynny yn ôl blwyddyn ariannol.

Blwyddyn Ariannol	Cyfanswm
2018 – 2019	321,515
2019 – 2020	1,468,398
2020 – 2021	194,891
2021 – 2022 P1-8	244,310

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol i chi.

Yn gywir,

Trafnidiaeth Cymru

Hawliau Apelio

Os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y cafodd eich cais ei drin a'ch bod chi'n dymuno gwneud cwyn neu wneud cais am adolygiad o'n penderfyniad, ysgrifennwch at y Pennaeth Rhyddid Gwybodaeth naill ai yn Trafnidiaeth Cymru, 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH neu freedomofinformation@tfw.wales. Rhaid i'ch cais gael ei gyflwyno cyn pen 40 diwrnod gwaith ar ôl derbyn y llythyr hwn. Os nad ydych chi'n fodlon â chanlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad.

Gallwch chi gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF neu gallwch chi gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy adran 'Gwneud Cwyn' eu gwefan ar y ddolen hon: <https://ico.org.uk/make-a-complaint/>

Yr adran berthnasol i'w dewis fvdd "Gwvbodaeth Swyddogol neu Gvhoeddus".